

17. ADDYSGU ALFRED
(Stori o'r nawfed ganrif)

Yn ystod y nawfed ganrif gallai pobl addysgiedig siarad Lladin – ond nid oedd y Brenin Alfred yn ŵr o addysg. Bu wastad yn ddymuniad ganddo ddysgu Lladin. Ond fel plentyn ifanc doedd ganddo neb i'w ddysgu ac ers hynny bu'n rhy brysur yn ymladd y Llychlynwyr i astudio. Nawr, o'r diwedd, roedd y brwydro trosodd ac roedd y Brenin â'i fryd ar ganfod athro i'w hyfforddi. Ond gan nad oedd gŵr cymwys i'r swydd yn Lloegr rhaid oedd chwilio tu hwnt i ffiniau'r wlad. 'Beth am Gymru? Ydyn ni'n adnabod unrhyw ysgolheigion o Gymru?' holodd ei gynghorwyr. 'Mae offeiriad o'r enw Asser,' meddai'r Esgob yn feddylgar. 'Clywais ei fod yn ŵr addysgiedig.'

'Gofyn i Asser ddod i'm gweld,' gorchmynnodd y Brenin. Erbyn diwedd y cyfarfod roedd Alfred yn bendant ei fod wedi dod o hyd i athro perffaith. Ond nid oedd Asser mor sicr. Gwir, roedd yn fraint cael sylw'r brenin a, chwarae teg iddo, roedd ei fawrhydi yn awyddus i ddysgu. Ond byddai symud i'r llys Seisnig yn gam mawr. Roedd Asser yn aelod o gymuned grefyddol a chasâi'r syniad o orfod ffarwelio â'i gyfeillion. Petrusodd ... crychodd ei dalcen ... rhwbiodd ei farf yn feddylgar ...

‘Wn i beth yw’r ateb. Cei aros yma’n Lloegr am chwe mis o’r flwyddyn ac yna’r gweddill yng Nghymru,’ awgrymodd Alfred.

Nawr, roedd hyn yn syniad llawer gwell. Chwe mis o bob blwyddyn gyda’i gymuned a chwech gyda’r Brenin. Dechreuodd Asser wenu. ‘Iawn. Fe gymeraf y swydd,’ cytunodd.

Felly symudodd yr offeiriad o fynydd-dir Cymru i wastatir Lloegr a dechreuodd ar y gwaith o addysgu’r Brenin. Treuliai Alfred bob munud sbâr yn astudio’r Beibl Lladin gyda’i athro gan ei gyfieithu linell wrth linell. Weithiau byddai Asser yn darllen yn uchel rannau o’r Beibl iddo ac yna’n eu hegluro. Os byddai Alfred yn hoff iawn o rywbeth a glywai byddai’n ymbil ar Asser – ‘Copïa’r rhan yna i mi.’ Gwelai Asser fod yr ymarferion hyn yn cael effaith dda ar y Brenin. Hyd yn oed pan oedd ymosodiadau’r Llychlynwyr ar eu gwaethaf yr oedd yn dawelach ei feddwl ac fe’i hysbrydolwyd i fod yn arweinydd doeth ar ei bobl. Roedd y Brenin yn ŵr o ffydd – ac yn arweinydd oedd wirioneddol eisiau rheoli ei wlad yn unol â ffordd Duw.

Ond, yr oedd yna un broblem. Tua diwedd mis Tachwedd anfonodd Alfred am Asser yn ôl yr arfer ond, am unwaith, roedd y Cymro fel petai’n anfodlon i fwrw iddi â’i waith, ‘Eich mawrhydi,’ meddai gan besychu i glirio’i wddf, ‘rwyf wedi bod gyda chi am saith mis.’

‘Saith mis! Ydi hi’n gymaint â saith mis ers i mi ddechrau dysgu Lladin?’ Agorodd y Brenin y Beibl. ‘Sut hwyl rwyt ti’n meddwl dwi’n gael arni felly?’

‘Wel, mae’r cynnydd a wnaethoch yn wych ond ...’

‘*Deus quid fecit caelum et terram*. Saith mis yn ôl fyddwn i heb ddeall y geiriau hyn. Nawr fe wn beth yw eu hystyr. “Duw a wnaeth y nefoedd a’r ddaear ...” ’

‘Ie wir, ond ...’

‘Ond beth? Wnes i ynganu rhywbeth yn anghywir?’

‘Mae eich ynganu’n berffaith. Yr unig beth yw, rwyf i fod yn ôl yng Nghymru. Mae fy mrodyr yn fy nisgwyl.’

‘*Mare et omnia quae in eissunt,*’ parhaodd y Brenin i barablu fel petai heb glywed dim. ‘Ystyr hyn yw –“y môr a phopeth sydd ynddo”.’

Ochneidiodd Asser. Roedd cael caniatâd i ddychwelyd adref mor anodd â cheisio dal slywen mewn cwpan.

Roedd y dyddiau'n byrhau. Deuai'r Nadolig yn agosach. Ond nid oedd unrhyw olwg fod Alfred am gadw at ei addewid gwreiddiol. Yn y cyfamser roedd Asser yn mynd yn fwy dig. Roedd yn ymddangos iddo fod gan y Brenin, er gwaethaf ei holl rinweddau, un gwendid mawr, sef ei duedd i gymryd ei athro yn ganiataol. Carai Asser y gwaith o fod yn athro. Yn fwy na hynny, credai mai Duw oedd wedi ei alw i'r swydd. Ond erbyn noswyl y Nadolig roedd yn barod i roi'r ffidil yn y to.

Yna, yn union wedi machlud haul, galwodd y Brenin amdano.

'Wel, dyma ni. Dwi am ddweud wrth ei fawrhydi beth sydd ar fy meddwl. Fedr o ddim dal ati i 'nhrin i fel hyn ...' Brasgamodd yr ysgolhaig blin tuag at y neuadd fawr.

Am unwaith, nid oedd ei ddisgybl brenhinol â'i drwyn yn y Beibl. Yn hytrach, roedd ar ei draed â'i gefn at y lle tân, yn amlwg mewn hwyl dda.

Tynnodd Asser anadl ddofn. Ond cyn iddo gael cyfle i agor ei geg estynnodd y Brenin ddwy amlen o'r tu mewn i'w glogyn a'u gwthio i'w ddwylo.

'Nadolig Llawen, fy nghyfaill!' meddai.

'Mae'n arw gennyf ond rwy'n gwrthod ...' dechreuodd Asser. Eto torrodd Alfred ar ei draws. 'Y tu mewn i'r amlenni fe weli restr o diroedd a thai yr wyf am i ti eu cael.' Gwenodd. 'Dyma fy ffordd i o ddweud "diolch". Rwy'n ddiolchgar iawn, wyddost ti.'

Winciodd y Brenin.

'Gwna'n siŵr dy fod yn dweud wrth dy frodyr pan weli di nhw.'

'Beth ... ydi hyn yn golygu y caf fynd adref?' gofynnodd Asser yn llawn syfrdan. Roedd yn barod am ddadl go iawn ond mewn amrantiad roedd y brenin wedi tynnu'r gwynt o'i hwyliau'n llwyr.

'Cei adael unrhyw bryd y mynni,' meddai Alfred. 'Cyn belled â dy fod yn addo dychwelyd.'

'Wrth gwrs y dof i'n ôl.' Bellach nid oedd unrhyw berygl i'r brenin golli ei athro.

Roedd ychydig o werthfawrogiad wedi achub y dydd.

HYD: 4–5 munud. Gellir perfformio'r stori fel meim, gyda 2–4 o bobl (cynghorwyr yn ddewisol) a storïwr.

NEGES: Mae Duw yn rhoi dawn dysgu i rai pobl. Pa fath o rai am ddysgu ydyn ni? Sut rydyn ni'n trin ein hathrawon?

DARLLEN: Effesiaid 4: 11; Timotheus 5: 17–18

GWYBODAETH YCHWANEGOL:
Ganwyd Alfred Fawr, Brenin Sacsonaidd Wessex, yn y flwyddyn 849 OC a bu farw yn 899. Ar ôl achub Lloegr rhag concwest y Daniaid, creodd gymdeithas heddychlon wedi ei seilio ar egwyddorion Cristnogol. Arweiniodd ei ddiddordeb mewn llyfrau ac addysg at adfywiad mawr mewn addysg ac fe gyfieithodd nifer o weithiau Lladin i'r Eingl-Saesneg. Bu Asser o Gymru'n gyfaill agos iddo ac yn ŵr y gallai ymddiried ynddo. Ef a ysgrifennodd ei gofiant.